# Adolygiad Blynyddol

## Ebrill 2016 - Mawrth 2017

















Ein nod ydi mynd i'r afael ag anghyfiawnder cymdeithasol trwy gefnogi cymunedau amrywiol i ennill y grym sydd ei angen arnyn nhw er mwyn cyflawni newid. Fe wneir hyn gynnon ni trwy drefnu cymunedol: dod â phobl a sefydliadau lleol at ei gilydd, eu hannog i osod eu hagenda'u hunain, cymryd camau gweithredol a gwella'u cymunedau eu hunain.

Mae Trefnu Cymunedol Cymru yn gyfuniad o nifer o grwpiau ffydd, grwpiau cymunedol ac ysgolion ar draws Siroedd Wrecsam, Fflint a Dinbych. Yn ein cyfarfodydd misol mae croeso i unrhyw un o'n haelodau godi mater yr hoffen nhw i TCC weithio arno. Golyga hyn mai ein haelodau sy'n llunio'n hagenda. Unwaith y bydd pob aelod arall wedi cytuno ar fater i weithio arno byddwn yn edrych ar y mater yn ofalus, yn darganfod pwy arall a all fod â diddordeb, a phwy sydd â'r awdurdod i wneud penderfyniad fydd yn newid y sefyllfa. Rydym ni'n ystyried beth sydd orau er lles ein haelodau a lles y gymuned er mwyn i bawb fod ar ei hennill. Rydym ni'n gweithio mewn cylchoedd cyhoeddus, yn aml gyda phobl mewn grym. Serch hynny, does gennym ni ddim ffafriaeth wleidyddol. Ein bwriad yn bennaf yw meithrin perthynas â phobl grym yn lleol er mwyn sicrhau fod pobl yn gallu dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

Dyma sydd wrth wraidd llwyddiant Trefnu Cymunedol Cymru ers ei sefydlu ym 1995. Mae'r adolygiad blynyddol hwn yn amlinellu rhai o'n llwyddiannau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae adroddiad blynyddol llawn sy'n cynnwys y cyfrifon archwiliedig ar gael yn swyddfa'r sefydliad a gan y Comisiwn Elusennau.




## Croeso i Ffoaduriaid

Yn dilyn ymgyrch maith, bu i Gynghorau Gogledd Ddwyrain Cymru gytuno i groesawu Ffoaduriaid o Syria. Yn arwain at benderfyniad Cyngor Wrecsam, bu i TCC gyhoeddi llythyr agored at y cyngor wedi ei arwyddo gan ein noddwr yr Esgob Gregory Cameron, ynghyd â 18 arweinwyr crefydd ac arweinwyr cymunedol lleol. Yn y llythyr bu i TCC gynnig cydweithio gyda'r Cyngor er mwyn gofalu fod y ffoaduriaid yn derbyn croeso cynnes ac yn teimlo'n gartrefol yn y gymuned.

Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, bu inni gynnal hyfforddiant 'Cyfathrebu'n Effeithiol er mwyn Gwneud Newid' ar y cyd â *HOPE not hate*. Bu i'r hyfforddiant ymdrin â'r ffeithiau ac ystadegau yn ymwneud â ffoaduriaid, yn ogystal â thechnegau ar gyfer cynnal sgyrsiau ynghylch herio materion fel mewnfudo a hil mewn ffordd hyderus ac effeithiol.




## Cynyddu presenoldeb yr Heddlu

Bu'r bobl ifanc yn fuddugol gyda'u hymgyrch lwyddiannus i gynyddu presenoldeb yr heddlu mewn parc sglefrio yn yr ardal. Mae'r grŵp o Ysgol Sant Christopher yn Wrecsam sef ysgol i blant gydag anghenion addysg arbennig. Bu i'r bobl ifanc gymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi wythnosol ar drefnu cymunedol a chydnabod y parc sglefrio fel mater i fynd i'r afael ag o. Roedden nhw'n bryderus ynghylch ymddygiad gwrth-gymdeithasol a defnydd o gyffuriau yno. Yn dilyn llawer o waith ymchwil a gwaith paratoi bu i'r grŵp gyfarfod gyda'u Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu (PCSO) i leisio'u pryderon, gofyn cwestiynau a chyflwyno cais. Bu i'r Swyddog fwynhau'r cyflwyniad yn fawr ac felly o ganlyniad, bu iddo gytuno i ymweld â'r parc sglefrio ddwywaith y dydd. Roedd y grŵp wrth eu bodd ac maen nhw'n gobeithio y gwnaiff hyn olygu gwahaniaeth mawr iddyn nhw a phobl ifanc eraill yr ardal.

Eleni bu i TCC dderbyn cydnabyddiaeth genedlaethol drwy ddod yn un o'r pum elusen i ennill Gwobrau Elusennol y Guardian. Roedd y grwpiau sy'n aelodau, yr ymddiriedolwyr a'r staff wrth eu bodd o ennill y wobr yn enwedig gan y bu i dros 700 elusen arall ymgeisio. Bu i'r wobr gydnabod gwaith TCC yn ystod y 21 mlynedd diwethaf a bu i'r beirniaid dynnu sylw arbennig at y ffordd y bu i TCC "baratoi ffordd gyda threfnu cymunedol ar gyfer Prydain gyfan". Ym mis Rhagfyr cafodd y wobr ei chyflwyno i gynrychiolwyr TCC gan Syr Ian McKellen mewn seremoni arbennig. Ymysg y gwobrau bu £3,000, iPad, a phecyn o hyfforddiant a chefnogaeth.





## Nodyn gan y prif drefnydd


Bu'n flwyddyn arall arbennig, llwyddiannus a phrysur ar gyfer TCC. Cyn etholiadau Cynulliad Cymru, bu inni fynd ati i gydweithio gyda Chyngor Ffoaduriaid Cymru, *HOPE not hate*, ac Oxfam Cymru er mwyn cynnal digwyddiad atebolrwydd, 'Gofalu fod Cymru yn Genedl Groesawgar a Llewyrchus', a oedd dan ei sang. Bu'r digwyddiad yn canolbwyntio ar faterion fel tâl isel, gwella ein strategaeth ynghylch ymfudo a'r gymuned yn dwyn i ystyriaeth gwneuthurwyr penderfyniadau. Ar ôl y digwyddiad, bu i TCC gyfarfod gydag ein Haelodau Cynulliad newydd eu hethol er mwyn parhau i ddatblygu perthnasau a chydweithio.

Bu i'n gwaith ar y cyd â phlant a phobl ifanc barhau i ffynnu. Eleni bu ein grŵp yn Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd Sant Joseff yn llwyddiannus gyda'u hymgyrch i ofalu bod eu hysgol yr 'Ysgol Noddfa' gyntaf un yng Ngogledd Cymru. I ennill y wobr, aeth y disgyblion ati i ysgrifennu datganiadau polisi newydd, cynnal gweithdai i ddisgyblion eraill a threfnu 'diwrnod ffoaduriaid' lle bu i dros 80 o ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau. Bu i Aelod Seneddol Wrecsam, Ian Lucas, ymweld â'r ysgol er mwyn cyflwyno'r wobr gan ddweud fod eu gwaith yn sicr o "ysbrydoli" eraill. O ganlyniad, bu i'r grŵp dderbyn gwahoddiad i gyflwyno cyflwyniad yng Nghynulliad Cymru. Diolch yn fawr i Sefydliad Esmée Fairbairn yn arbennig am ofalu fod modd inni gydweithio gyda phobl ifanc.

Eleni bu inni gynnal dau ddigwyddiad hyfforddi ynghylch trefnu cymunedol gan hyfforddi 32 arweinwyr cymunedol newydd gan gynnwys pum person ifanc oedran ysgol uwchradd. Bu inni hefyd ymweld â Thrive Teesside a Phrifysgol Glasgow i gynnal sesiynau hyfforddi yno. Am ben hyn, bu i drefnwyr ifanc drefnu digwyddiad 'llyfrgell pobl' er mwyn rhannu gwahanol brofiadau, bu inni gyfarfod gyda llywodraethwr y carchar newydd, bu inni gymryd rhan yn yr ymgyrch lobïo Atal Anhrefn Hinsawdd drwy gyfarfod gydag Aelodau Cynulliad a chynnal Wythnos Codi Arian TCC arall llwyddiannus. Yn ystod y flwyddyn, roedden ni hefyd ar ein pen ein digon o groesawu Ardal Cenhadaeth Wrecsam fel aelodau, sy'n golygu ein bod ni wedi ennill chwech grŵp aelod newydd (roedd dwy eglwys yn aelodau eisoes).

Sam Rex-Edwards Diolch yn fawr iawn a llongyfarchiadau i holl aelodau a chefnogwyr TCC.




**Ein harianwyr**

Rydym yn hynod ddiolchgar i'n ariannwyr sy'n cynnig grantiau er mwyn cefnogi TCC i gynnal eu mudiad o ddydd i ddydd. Yn ystod blwyddyn ariannol eleni bu inni dderbyn grantiau gan *Esmée Fairbairn Foundation*, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Esgobaeth Llanelwy a Synod Cymru yr Eglwys Fethodistaidd.

Mae cyfrifon cyflawn wedi eu harchwilio yn annibynnol ar gael yn adroddiad blynyddol TCC.

37 Ffordd Kingsmills,
Wrecsam. LL13 8NH.
01978 262588
www.tcc-wales.org.uk
office@tcc-wales.org.uk
TCCWales

**Ein haelodau**

Ar hyn o bryd mae gennym ni 33 o grwpiau gwahanol sy'n aelodau ac rydym ni wastad yn croesawu grwpiau newydd i'r gorlan. Mae pob grŵp yn talu ffi aelodaeth yn seiliedig ar eu maint. Ond fel y gwelwch chi, arian grant yw'r rhan helaethaf o'n hincwm.

Mae bod yn aelod o Drefnu Cymunedol Cymru yn rhoi cyfle i grwpiau ddod â'r materion sy'n eu pryderu i sylw'r sefydliad. Mae hefyd yn gyfle i rannu gwybodaeth, i roi cymorth a chefnogaeth i grwpiau eraill yn ogystal â chael hyfforddiant am ddim gan y sefydliad. Rydym ni'n cynnig hyfforddiant rheolaidd ar ffurf ein cyrsiau preswyl neu fe allwn ni drefnu hyfforddiant yn arbennig ar gyfer eich gr□p.

**Ein staff**

Mae gan TCC ddau drefnydd cymunedol: y prif drefnydd Mrs Kay Polley a'r trefnydd ieuenctid a chymunedol Mrs Chloe Gallagher, a ymunodd gyda'r mudiad ym mis Mai 2016. Ym mis Tachwedd bu i Kay fynd i ffwrdd ar gyfnod mamolaeth ac ers hynny bu i Ms Sam Rex-Edwards gyflawni'r swydd prif drefnydd. Mae gan TCC weinyddes rhan amser hefyd sef Mrs Sue Williams.

**Ein hymddiriedolwyr**

Mae ein bwrdd o ymddiriedolwyr yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Y bwrdd yn ystod y flwyddyn oedd: Y Parch Dr Jennie Hurd (cadeirydd), Dr Farookh Jishi (is-gadeirydd), Mr David Day (trysorydd), Y Parch James Harris (ymddiswyddodd ym mis Gorffennaf), Mrs Nia Higginbotham, Y Parch Nan Powell-Davies, Mrs Maria Rimmer, Ms Melanie Sinclair, a Ms Alison Williams, efo'r Arglwydd Esgob Gregory Cameron fel Noddwr. Mae pob grŵp yn cael eu hannog i enwebu aelodau i fod yn ymddiriedolwyr.